CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
Etholiad ar gyfer
Etholaeth Gorllewin Casnewydd

1. Cynhelir etholiad i ethol aelod i wasanaethu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru dros Etholaeth Gorllewin Casnewydd.

2. Rhaid i bapurau enwebu gael eu danfon at y Swyddog Canlyniadau Lleol yn Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, rhwng **10.00** a **16.00** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun hyd ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16.00** ar **ddydd Iau, 7fed EBRILL, 2016**. Derbynnir ernesau ymgeiswyr (£500) ar ffurf arian parod neu ddrafft banc, wedi'i dynnu yn erbyn banc y stryd fawr.

3. Gellir cael papurau enwebu yn y lle ac ar yr adegau a grybwyllir uchod. Bydd y Swyddog Canlyniadau, ar gais unrhyw unigolyn, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.

4. Os ymleddir yr etholiad, bydd y pleidleisio ar **ddydd Iau, 5ed Mai, 2016**.

5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **24:00** ar **ddydd Llun 18 Ebrill 2016.**

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon ddal sylw bod yn rhaid i bob cais am bleidlais drwy'r post newydd, am bleidlais drwy ddirprwy drwy'r post ac i newid neu ddiddymu pleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes, gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod, erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 19eg EBRILL, 2016**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.

7. Rhaid i geisiadau newydd i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 26ain EBRILL, 2016**.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **17:00** ar **5ed Mai 2016.** Rhaid bod yr analluogrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016.** Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**.

Ardaloedd	Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol	
Gorllewin Casnewydd: - Allt yr Ynn, Betws, Caerllion, Gaer, Y Graig, Malpas, Maerun, Pilgwenlli, Tŷ-du, Shaftesbury, Stow Hill, Parc Tredegar	Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	01633 210744

Cynhelir etholiadau Rhanbarthol i Gynulliad Cymru hefyd ar ddydd Iau, 5ed Mai, 2016, ynghyd â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Gwent.

Will Godfrey,
Swyddog Canlyniadau Lleol,
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Dyddiedig heddiw 21ain o Fawrth, 2016.

Noder: - Dylai unrhyw un ag ymholiad gysylltu â Phil Johnson, y Dirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol i gael mwy o wybodaeth ar 01633 210742 e-bost phillip.johnson@newport.gov.uk